

SWYDD WAG

Llawn amser

RHEOLWR PROSIECTAU AIL-DDEFNYDDIO FRAME

£24,500 pa

Cytundeb Cyllido Cyfnod Penodol 12 mis

Mae FRAME Sir Benfro yn chwilio am Reolwr Prosiectau Ail-ddefnyddio i weinyddu eu Prosiect Ail-ddefnyddwyr Sied Werdd 12 mis, newydd a chyffrous, wedi'i ariannu gan Y Gronfa Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a weinyddir gan CGGC.

Rydym yn chwilio am unigolyn llawn sgiliau, talentog, brwdfrydig ac wedi'i ysgogi i ymuno â'n Tîm. Os ydych yn llawn angerdd tuag at yr amgylchedd, cefnogi unigolion bregus, cyflawni canlyniadau cadarnhaol a gwneud gwell lle i bobl i fyw, yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Mae'n gyfnod cyffrous wrth i ni; ddatblygu ein prosiectau ail-ddefnyddio presennol gan gynnwys ein prosiect unigryw o ail-ddefnyddio creadigol; cyflwyno Calendr Sied Werdd o achlysuron ail-ddefnyddio; datblygu masgot newydd a chreu prosiect ymwybyddiaeth ysgol a lansio prosiect ail-glustogi cwbl newydd. Byddwch yn rheoli tîm bychan, recriwtio gwirfoddolwyr a datblygu rhaglen canfod gwirfoddolwyr.

Cyfrifoldebau'n cynnwys:

- Datblygu, gweithredu a rheoli rhaglen Canfod Gwirfoddolwyr;
- Rheoli a gweithredu prosiectau ail-ddefnyddio presennol a newydd eu datblygu ar safleoedd FRAME gan gynnwys prosiect Ail-glustogi newydd;
- Rheoli tîm bychan;
- Datblygu a hyrwyddo calendr o achlysuron cynaliadwy blynyddol yn y Sied Werdd yn cynnwys achlysuron rhithiol a hwyluso cynadledda fideo;
- Hyrwyddo a rheoli ystafelloedd cyfarfod a gofod yn y Sied Werdd;
- Datblygu a rheoli prosiect masgot newydd FRAME a gwireddu rhaglen addysg ysgolion masgot FRAME.
- Casglu ystadegau a chyrraedd targedau diddymu gwastraff.

FRAME Sir Benfro

Mae FRAME Sir Benfro yn elusen hyfforddiant a chefnogi cyflogaeth sy'n trawsnewid cannoedd o fywydau yn Sir Benfro bob blwyddyn, trwy ddarparu mynediad i ddysgu, galwedigaeth ystyrion gyda chefnogaeth, menter gymdeithasol, cyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddol, cymorth a chefnogaeth i alluogi unigolion i gyrraedd eu potensial. Mae ein patrwm yn FRAME yn ymwneud â defnyddio ein gweithredu masnachol mewn ail-ddefnyddio a lleihau gwastraff i gefnogi a chynnal ein rhaglenni elusennol ar gyfer yr unigolion rydym yn eu cefnogi, golyga hyn ein bod yn gallu cyflawni gwerth cymdeithasol o bwys tra byddwn hefyd yn cefnogi'r amgylchedd ac yn ymladd newid hinsawdd. Mae cyfranogwyr FRAME yn rhan o'r broses gyfan o gasglu nwyddau tŷ a dodrefn a fu'n annwyl, y gwaith

o ddidoli a dewis ac mewn rhai achosion ail-ddefnyddio creadigol ar gyfer gwerthu, ac yna marchnata, gwerthu a danfon nwyddau.

Profiad/sgiliau sydd eu hangen

Byddwch yn ymwneud â rheoli tîm bychan a recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr fydd yn gofyn am brofiad o weithio gyda phobol, o ran cefnogi a rheoli. Bydd o wir gymorth pe bai gennych ddiddordeb go iawn yn ogystal â / neu brofiad o ail-ddefnyddio, newid hinsawdd a diogelu'r amgylchedd. Bydd angen sgiliau cyfathrebu ardderchog arnoch a'r gallu i ddatblygu perthynas gref gyda phartneriaid allanol a mewnol. Dylai fod gennych beth profiad o ddysgu neu gyflwyno a byddai o gymorth pe bai gennych sgiliau rheoli prosiectau ac achlysuron hefyd. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol. Yn ddelfrydol mae arnom angen rhywun sy'n gyffyrddus yn y byd technoleg rhithiol fyddai'n medru trefnu a chyflawni achlysuron rhithiol. Os medrwch gynnig hyn a bod gennych gymhwyster Lefel A neu uwch, rydym yn awyddus i glywed gennych.

Cyswllt a gwybodaeth ychwanegol

Bydd eich lleoliad sylfaenol yn FRAME Sir Benfro, Pont Fadlen gyda pheth teithio rhwng safleoedd.

Gall y swydd olygu gwaith gyda'r nos ac ar benwythnos.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynghylch y swydd, yna, cysylltwch â sian@frameltd.co.uk yn y man cyntaf.

I gynnig ewch at ein gwefan <http://www.pembrokeshire-frame.org.uk/vacancies/> a lawrlwytho, cwblhau a dychwelyd y ffurflen gais.

Yr hwyraf y gellir cynnig am y swydd wag: 5pm Llun 24^{ain} Awst 2020